# y dinesydd

Gorff./Awst 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 247

# Ymlaen at y Mileniwm!

"Fe drowyd Stadiwm y Mileniwm yn Faes Mawr y genedl a môr o gân."

*Am weddill yr hanes, gweler erthygl Thomas Davies ar dudalen 10.*



Scott Quinnell yn cael ei daclo gan Percy Montgomerie ac Otto Krynauw yn ystod y gêm Cymru a De Affrica yn Stadiwm y Mileniwm.
*Llun: Huw Evans, trwy garedigrwydd Undeb Rygbi Cymru*

## Stadiwm y Mileniwm

Does dim modd ei golli wrth ichi ddod i mewn i Gaerdydd ar y trên - dyna fe'n sefyll ben ac ysgwyddau yn uwch na phopeth arall o'i gwmpas ac yn sgleinio'n wyn yn yr haul. Ie, o'r diwedd, mae stadiwm newydd sbon gennym, a fydd yn llwyr barod jyst mewn pryd i gystadleuaeth Cwpan y Byd!

Mae Stadiwm y Mileniwm yn ddwywaith maint yr hen Faes Cenedlaethol (223m ar hyd a 182m ar led, gyda lle i 72,500 eistedd) ac mae ganddo gymwysterau modern iawn, gan gynnwys to y gellir ei agor - neu yn fwy perthnasol efallai, ei gau - i siwtio'r tywydd. Dim ond un stadiwm arall o'i fath sydd yn Ewrop, a hynny yn Amsterdam. Bydd hefyd, erbyn yr hydref, rodfa ar hyd yr afon, amgueddfa, siopau, tai bwyta a barau.

Yn ogystal â'r rygbi hollbwysig, y bwriad yw cynnal cystadlaethau chwaraeon eraill yno, a hyd yn oed cyngherddau, sioeau ac operâu. Ac ar ôl dechrau mor llwyddiannus ym mis Mehefin yn erbyn De Affrica, efallai bod dyfodol rygbi Cymru yn edrych braidd yn obeithiol.

**Lynne Davies**

*Trowch i dudalen 10 am weddill colofn Lynne Davies, 'Ar y Cyd'.*

**Yn ôl yr arfer, bydd rhifyn Medi o'r *Dinesydd* yn cynnwys y cyfeiriadur blynyddol i weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnwys manylion am gymdeithasau, sefydliadau, eglwysi ac ysgolion Cymraeg y cylch.**

**Os ydych am gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau i'r cyfeiriadur, dylech gysylltu rhag blaen â Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (01222-628754).**

**Mae'r cyfeiriadur hefyd i'w weld ar wefan *Y Dinesydd*** : http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/

### Geirfa

ben ac ysgwyddau yn uwch - head and shoulders above
sgleinio - shining
cymwysterau - facilities
rhodfa - walkway
hollbwysig - all-important
bwriad - intention
cyngherddau - concerts
llwyddiannus - successful

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst 1999, Rhif 247.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 24 Awst:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 9** **Gorff./Awst 1999**



**Ar Draws**

1. Casgliad o gerddi efallai, un ar ôl y llall (9)
5. Dechrau gweld ateb terfynol i'r ffordd i mewn (3)
7. Galw Ceinwen mewn trallod wedi colli Cen (4)
8. Tre' ifanc neu hen ardaloedd (8)
10. Dod i bres mewn ffordd gyfeiliornus (8)
11. Crochan neu ddau yn Lloegr (4)
13. Bid Dai mewn cyffro cyson (6)
15. Bron rhoi cast mewn cell yng Nghaernarfon a Chaerdydd a ... (6)
18. Rhoi to ar y traeth i'w wneud yn ddilygredd (4)
19. "___ ___ ____ bûm yn chwarae;
    Pe syrthiasai f'enaid gwan,
    Nid oedd bosibl i mi godi
    Byth o'r dyfnder hwnnw i'r lan" (W.W.) (2,1,5)
22. Chwa melyn yn creu aderyn (8)
23. Mae hon yn swnio mewn poen (4)
24. Mae rhywbeth ffals mewn gwadu bob yn ail (3)
25. Bysedd y cŵn ar ddwylo merch (5,4)

**I Lawr**

1. Rywsut doed dŵr i greu arogl afiach (7)
2. A yw hwn yn ynys? (5)
3. Nid mewnol Eglwys a nod yn dilyn y Cyntaf (6)
4. Aderyn bach iawn yn cyfnewid ei ben â Tomos (4)
5. Y Bardd Bach a blew pen o gwmpas ei ên (7)
6. Tro teg i'r gath fawr (5)
9. Lle i falu aur i'r glust (5)
12. Pum cant mewn llawer rhan o droed (5)
14. Twyllo Brad a gwartheg wedi eu pedoli (7)
16. Yr Eglwys a bron yr holl stryd yn creu anhrefn (7)
17. Cerrig mân a graen truenus (6)
18. Megan fach yn cefnu ar yr og yn ddisglair (5)
20. O'r bag mae'n neidio (5)
21. "____ o dân o ganol nefoedd,
    Yw, disgynnodd yma i'r byd" (W.W.) (4)

**Atebion Croesair 8 (Mehefin 1999)**

**Ar Draws:** 1. Caerhirfryn; 7. Ysgwyddo; 9. Agos; 11. Gwasg; 12. Brolio; 14. Barf yr hen ŵr; 18. Amgylch; 20. Nithio; 22. Arab; 23. Asgellwr; 24. Y curlaw mawr.

**I Lawr:** 2. Argraffa; 3. Isod; 4. Ysgol; 5. Dysgu; 6. Ystod; 8. Ysgafala; 10. Arbennig; 13. Arch; 15. Wrth y llyw; 16. Dafad; 17. Lowri; 19. Gwanc; 21. Para.

**Croesair Rhif 8**

Derbyniwyd chwe ymgais a phob un ohonynt yn holloi gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd James Wiegold, 131 Heol-y-deri, Rhiwbina. Fe fydd ef yn derbyn tocyn llyfrau. Cafwyd yr atebion eraill gan Margaret Jones a Haydn Jones o Rhiwbina; Gwenda Hopkins, Llanisien; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; a Mair Morgan, Treganna.

**Cystadleuaeth Gorff./Awst 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 27 Awst.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 23 Gorffennaf**
CYD: Noson yng nghwmni 'Catscam' yng Nghlwb Ifor Bach am 8.00 p.m. Pris: £3.

**Sadwrn, 24 Gorffennaf**
I ddathlu ei phen-blwydd yn 30 oed, bydd Sali Mali yn ymweld â siop Oriel am 2.00 p.m. Am ragor o fanylion, ffoniwch 01222-395548.

**Llun, 30 Awst**
Mardi Gras Tongwynlais – diwrnod o hwyl i bawb yn y pentref. Manylion pellach: 01222-811352.

**Iau, 9 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Sgwrs gan Thomas Davies ar 'Gristnogion a Chwaraeon' ym Methel am 7.30 p.m.

**Gwener, 17 Medi**
Academi: Noson ddwyieithog yng nghwmni Jan Morris a Thwm Morys yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd am 7.30 p.m. Pris: £3.

**Iau, 30 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Dr Siân Rhiannon ar Arglwyddes Greenly (Llwydlas). Manylion pellach: Valmai Evans (612104).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754).*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Pwyllgor y Dinesydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol *Y Dinesydd* yn Eglwys Bethel, Rhiwbina, nos Iau, 20 Mai. Etholwyd y swyddogion a'r pwyllgor canlynol:

*Cadeirydd:* E. Wyn James
*Is-gadeirydd (golygyddol):* Linda Thomas
*Is-gadeirydd (gweinyddol):* John Rowlands
*Ysgrifennydd:* Julie Jones
*Trysorydd:* Rheon Thomas
*Swyddog Hysbysebion:* Menna Gwyn
*Prif Ddosbarthwr:* Robin Jones
*Swyddog y We:* Peter Bradley
*Aelodau eraill o'r pwyllgor:*
Thomas Davies, W. J. Jones, Robin Griffith, Linda Moran, Ceri Morgan, Gwilym Roberts.

Yn niffyg Golygydd, Dr Wyn James a Mrs Linda Thomas sy'n cymryd pen trymaf y gwaith o gael *Y Dinesydd* i'w wely. Pe bai rhywrai o'n darllenwyr am gynorthwyo gydag unrhyw agwedd ar y gwaith o gynhyrchu'r *Dinesydd* – y gwaith golygyddol, casglu newyddion, teipio defnyddiau, y dosbarthu, a.y.y.b. – dylent gysylltu â Dr Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754). Dylech anfon unrhyw gwyno neu ganmol i'r un cyfeiriad!

## Llongyfarchiadau

- i Manon a Ieuan Rhys, Llandaf, ar enedigaeth eu mab, Cai, ddydd Sul, 13 Mehefin.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT....
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Diwedd y Daith i 'Dalier Sylw'

Un o gwmnïau drama mwyaf blaengar Cymru yw 'Dalier Sylw'. Mae ei bencadlys yn y brifddinas a phobl Caerdydd gan mwyaf sydd ar ei fwrdd rheoli. Ond mae'n wynebu cyfnod anodd oherwydd polisi diweddaraf Cyngor Celfyddydau Cymru ynghylch dyfarnu grantiau. Ymddengys mai'r cynllun ar hyn o bryd yw ffurfio cwmni drama newydd (eto fyth!) wedi ei leoli yn y Sherman, un a fydd yn gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Un o ganlyniadau hyn fydd dileu cwmnïau 'Made in Wales', Cwmni Theatr y Sherman a 'Dalier Sylw', ac ni fydd y strwythur newydd yn cael cymaint o gymhorthdal.

Mae darllenwyr *Y Dinesydd* (fel pawb arall) yn hoffi mynd allan i weld drama Gymraeg mor rheolaidd ag sy'n bosibl, ac mae'n bwysig gofyn yn awr a fydd y Gymraeg yn cael lle haeddiannol mewn unrhyw strwythur newydd. Un ffordd o fynegi eich safbwynt fyddai cysylltu ag Anna Holmes, Uwch-swyddog Dawns a Drama, Cyfadran Datblygu'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX.

## Minny Street a Llyfr y Flwyddyn

Llyfr gan Bobi Jones a enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn Cyngor y Celfyddydau eleni am lyfr Cymraeg mwyaf nodedig y flwyddyn. Mae ei gyfrol, *Ysbryd y Cwlwm: Delwedd y Genedl yn Ein Llenyddiaeth*, yn ddewis amserol o gofio bod eleni wedi gweld sefydlu ein Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd.

Brodor o Cathays yw Bobi Jones. Cafodd ei fagu yno ar aelwyd ddi-Gymraeg, gan ddysgu'r iaith yn Ysgol Cathays dan y diweddar Elvet Thomas cyn mynd ymlaen i raddio'n BA ac MA o Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Er iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i oes yn Aberystwyth, y mae'n dal i'w ystyried ei hun yn fardd a llenor dinesig yn y bôn.

Cyhoeddwyd *Ysbryd y Cwlwm* gan Wasg Prifysgol Cymru o'i phencadlys yn Gwennyth St, Cathays, nid nepell o fan geni Bobi Jones; ac nid yw'r cysylltiad â Chaerdydd yn gorffen yno, gan fod dau o dri beirniad y wobr Gymraeg eleni o Gaerdydd – Dr E. Wyn James yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol ac Elin ap Hywel yn gyfieithydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

Roedd i Gaerdydd le amlwg hefyd yn y gystadleuaeth am y llyfr Saesneg mwyaf nodedig. Roedd dau o'r tri llyfr ar y rhestr fer gan frodorion o Gaerdydd, sef Gillian Clarke a Gwyneth Lewis, a'r enillydd, Emyr Humphreys, yntau wedi byw yng Nghaerdydd am gyfnod.

Peth trawiadol oedd sylweddoli fod y tri awdur ar y rhestr fer Saesneg eleni yn medru'r Gymraeg. Cyd-ddigwyddiad trawiadol arall oedd bod enillwyr y prif wobrau Cymraeg a Saesneg eleni, sef Bobi Jones ac Emyr Humphreys, ill dau wedi bod yn eu tro yn aelodau yn Eglwys Minny Street, Cathays.

## Bara Oer

Beth amser yn ôl, gofynnodd *Y Dinesydd* i'w ddarllenwyr roi gwybod am arwyddion 'Cymraeg' diddorol yn archfarchnadoedd y ddinas. Yn ôl Mr G. Jones, Llanrhymni, mae un diddorol iawn yn Nhesgo newydd Llaneirwg am fara wedi'i dafellu (*sliced bread*), sef 'bara wedi ei rewi'. Sut y daeth hwnnw i fod, tybed?

## 'Cernod Oer'

Cafodd un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wahoddiad yn ddiweddar i noson o hwyl a lluniaeth. Soniai'r cerdyn gwahodd am arlwyo 'Cernod Oer' – camgymeriad hawdd i ddysgwyr ei wneud o edrych yn y geiriadur o dan y gair '*buffet*'.

## Taith Noddedig o Gwmpas Cymru

Bydd dau (dwy!!) aelod o Ferched y Wawr, sef Elsie Roberts ac Einir Wyn, yn cychwyn ar daith feiciau arbennig, er budd Canser y Fron a mudiad Merched y Wawr. Byddant yn cychwyn ar eu taith o Fae Caerdydd (o flaen Adeilad y Cynulliad) fore Sul, 24 Gorffennaf, am 9.00 a.m. gan obeithio cyrraedd, ymhen wythnos yn ddiweddarach, Faes Eisteddfod Genedlaethol Môn, fore Sadwrn, 30 Gorffennaf. Byddai'r ddwy yn falch iawn o weld rhai o aelodau Merched y Wawr yn y Bae i'w cychwyn ar eu taith, neu eu cefnogi ar y ffordd. Ar y diwrnod cyntaf maent yn gobeithio beicio ar hyd Llwybr Taf i gyfeiriad Llandaf, Castell Coch a Phontypridd, gan gyrraedd Castell-nedd cyn diwedd y dydd.

## Llyfryn MYM

Yng Nghylch Meithrin y Parc yn Nhreganna yn ddiweddar, lansiwyd llyfryn gan MYM wedi'i anelu at groesawu rhieni a gofalwyr i gylchoedd meithrin Cymraeg. Noddwyd y llyfryn gan Fanc Midland a gellir sicrhau copi drwy gysylltu â Swyddfa MYM (Ffôn: 029 20485510).

## Ysgol Gymraeg Breifat

Bwriedir agor ysgol Gymraeg breifat i blant rhwng 7 ac 11 oed ym mis Medi yn adeiladau'r Coleg Newydd, Bute Terrace, Caerdydd. Y brifathrawes fydd Mrs Gwynfydd Evans, sy'n dod o Saron, Rhydaman yn wreiddiol, ac ymhlith aelodau o'r staff bydd Geran Hughes, ŵyr i'r diweddar Arwel Hughes y cerddor.

## Nawfed Ysgol Gymraeg y Ddinas

Agorir y nawfed ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd ym mis Medi yn Heol Albany a'r brifathrawes fydd Ms Rhian Jones. Llongyfarchion iddi hi ar ei phenodiad a phob dymuniad da i'r ysgol newydd.

## 'Wyneb Swyddogol' y Ddinas

Sara Williams o'r Barri fydd 'wyneb swyddogol' dinas Caerdydd o hyn allan a gwelir ei hwyneb hardd ar bopeth fydd yn hybu cyhoeddusrwydd ynghylch y ddinas. Merch ydyw i Euryn a Jenny Ogwen a chafodd lawer o sylw'n ddiweddar pan ymddangosodd mewn ffrog â phatrwm y ddraig goch ar ei thraws. Ceisiodd Shirley Bassey ei hefelychu pan ymddangosodd mewn gwisg â'r ddraig goch arni yn y Cyngerdd Mawreddog yn y Bae i ddathlu agoriad swyddogol y Cynulliad! Mae Sara'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf.

## Gwibdaith i Langynwyd

Nos Lun, 7 Mehefin, aeth Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar ei gwibdaith flynyddol, gan ddewis mynd i Langynwyd eleni. Yno ymwelwyd ag Eglwys Cynwyd lle cafwyd sgwrs ddifyr gan y ficer, y Parchg Bernard Thomas, gynt o Bontardawe, ar yr eglwys a'r ardal. Yna ar ôl gweld beddau Wil Hopcyn ac Ann Thomas a'i gŵr, aethpwyd i'r Tŷ Newydd i gael swper a chanu cymdeithasol dan arweiniad cadeirydd Cymdeithas Gymraeg Maesteg.

## I'r Wisg Wen

Llongyfarchiadau i'r Athro Sioned Davies, pennaeth Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, Alun Guy, cyn-bennaeth Adran Gerdd Ysgol Glantaf, a'r arweinydd corau, Alun John, ar gael eu derbyn i'r Urdd Dderwydd er Anrhydedd yng Ngorsedd y Beirdd. Byddant yn cael eu hurddo yn Eisteddfod Genedlaethol Môn ym mis Awst.

## Cydymdeimlwn

– â Janice Breeze-Thomas o Wenfô ym marwolaeth ei mam, Mrs Gwyneth Jones o Aberaeron, a fu farw yn Holme Towers, Penarth ddechrau Mehefin.
– â Gwyn Erfyl a'r teulu ar golli Lisa Erfyl. Bu'r teulu ar un adeg yn byw yng Nghaerdydd a daeth Lisa i enwogrwydd mawr gyda'i chôr cerdd dant enwog a ysgubai'r gwobrau blaenaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
– â Wyndham Richards a'i deulu ym marwolaeth ei fam, Mrs Eirionwen Richards, Radur.
– ag Ellis Roberts, Llwynbedw, a'r teulu, ym marwolaeth ei wraig, Mrs Sarah Mary (Sali) Roberts.

## Cwrs Preswyl y Gymdeithas Alawon Gwerin

Croeso cynnes i bawb i gwrs preswyl blynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, a gynhelir yn Aberystwyth o nos Wener, 10 Medi, hyd amser cinio dydd Sul, 12 Medi. Ymhlith y darlithwyr bydd Meredydd Evans (sylfaenydd *Y Dinesydd*), Siwan Meleri Rosser, William Mahon a Mary-Anne Constantine. Am fanylion pellach, cysylltwch â Dr Rhidian Griffiths, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion.

## Geiriau rhyfedd!

'Bygythiad gan Gaerdydd i ddatblygiad deallusol y Gymraeg yw ei methiant llwyr i gynnal unrhyw fath o fywyd deallusol Cymraeg. Dyma i chi ddinas o hyd at 20,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n methu â chynnal papur bro misol ar ei liwt ei hunan' – Siôn T. Jobbins yn rhifyn Mai 1999 o'r cylchgrawn *Barn*.

## Yn cofio 'Teledu Cymru'?

Mae Jamie Medhurst o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Cymru Aberystwyth, yn ymchwilio i ddatblygiad teledu masnachol yng Nghymru yn ystod yr 1950au a'r 1960au. Hoffai siarad â phobl am eu hatgofion o ddyddiau cynnar teledu masnachol, ac yn fwyaf arbennig rhaglenni cwmnïau TWW, Teledu Cymru/WWN a Granada. Gallwch gysylltu ag ef trwy ffonio 01970-622152.

## 'Nôl i'r *Fro*dorol Iaith

Mae addysg Gymraeg wedi tyfu yn Mro Morgannwg yn groes i bob disgwyl. Dim ond 15 o ddisgyblion oedd yn Festri'r Eglwys Fethodistaidd, Tregatwg, yn ôl yn 1952. Eleni mae bron â bod 1250 o ddisgyblion mewn pum ysgol gynradd ar draws y Fro.

Nid yw'r stori wedi gorffen, chwaith. Sefydlwyd Ysgol Newydd y Barri y tu mewn i safle Ysgol Sant Curig dair blynedd yn ôl ac mae honno ar drothwy symud i safle parhaol yn ardal Tregatwg - addysg Gymraeg yn dychwelyd i'w haelwyd yn y Fro fel petai!

Bu rhien'n galw am ysgol uwchradd yn y Fro ers blynyddoedd lawer, cyn i'r Fro a Chaerdydd gael eu sefydlu yn awdurdodau ar wahân. Pleser mawr, felly, yw clywed y bydd safle ar gael ar gyrion y Barri yn sgîl ad-drefnu yn Ysgol Gyfun y Barri. Bydd lleoliad Ysgol Gyfun Bro Morgannwg oddi ar Port Road yn y Barri yn wych ar gyfer pawb yn y Fro. Rhagwelir dyfodol disglair i ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf y Fro a agorir ym Medi 2000.

## Fuschia Ffion

Mae Ffion Jenkins, gwraig William Hague, wedi cael fuchsia wedi ei enwi ar ei hôl, sef 'Fuschia Ffion'. Gofynnwyd i Ffion ddewis planhigyn ar gyfer rhaglen y BBC, 'Gardener's World Live', gan Feithrinfa Pot Ash yn swydd Suffolk.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EBENESER, CAERDYDD

**Ebeneser ar y We:** Rydym wrthi'n datblygu cysylltiadau electronig ar hyn o bryd er mwyn cyhoeddi ein presenoldeb ac i'n galluogi i gyfathrebu'n uniongyrchol â Christnogion eraill yng Nghymru a'r byd. Bydd safle ar y we fyd-eang gennym yn fuan a gallwch gysylltu â ni nawr trwy yrru nodyn i'n cyfeiriad e-bost, sef ebeneser@heolsiarl.freeserve.co.uk



**Taith 'AnniMeth':** Bu nifer o blith cwmni drama 'AnniMeth' o Gaernarfon yn aros gydag aelodau Ebeneser yn ddiweddar. Roeddent yn ne Cymru yn perfformio'r ddrama gerdd *Y Rocar* gan Harri Parri a Ronald Williams, sef hanes bywyd yr Apostol Pedr. Cawsant groeso mawr gan lawer a aeth i'w gweld yn Theatr y Miwni, Pontypridd nos Wener, 30 Ebrill.

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Bu aelodau'r gymdeithas ar wibdaith i Benrhyn Gŵyr ddydd Iau, 20 Mai.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian a Neil Fenn (Pen-y-lan) ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Nia Mair.

Hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd Ffion Lois Roblin, merch Menna a Graham Roblin mewn gwasanaeth plant yng nghwmni'r Parchg Eifion Powell ar Sul cyntaf Mehefin.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd a chyfeillion dau aelod a fu farw ganol Mehefin sef Dr Raymond Edwards (Cyncoed) a Mrs Enid Lewis (Radyr).

Cynhaliwyd cinio arbennig iawn nos Sadwrn, 19 Mehefin, yn Ysgol Melin Gruffydd er budd cronfa Kosovo – hyd yma casglwyd dros £500.

## BETHEL, PENARTH

Brynhawn Sul, 25 Ebrill, daeth cynulleidfa fawr o aelodau a ffrindiau i Fethel i gynnal Gwasanaeth o Ddiolch ac i gyflwyno cofeb yn y capel er cof am ein diweddar annwyl weinidog, y Parchg Meurwyn Williams.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Ddr Noel Davies a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchg Hywel Wyn Richards, Dolgellau, y ddau yn ffrindiau mawr i Meurwyn. Braf oedd cael cwmni nifer o weinidogion eraill yn y gynulleidfa. Ieuenctid yr eglwys oedd yn gyfrifol am weddïo yn y gwasanaeth a darllenwyd o'r ysgrythur gan Gill Lloyd, Ysgrifennydd Gohebol yr Eglwys. Alun Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys a offrymodd y weddi o ymgysegriad. Yn dilyn y gwasanaeth, fe drefnwyd lluniaeth yn y festri gan wragedd yr eglwys.

Testun myfyrdod y Parchg Ddr Noel Davies oedd "Ewch, dywedwch wrth ei ddisgyblion ac wrth Pedr: 'Y mae'n mynd o'ch blaen chwi i Galilea; yno y gwelwch ef, fel y dywedodd wrthych'." Gosodwyd her i ni fel aelodau o Eglwys Iesu Grist: "Ewch, dywedwch." Y mae Crist wedi chwalu meini mawr beddau ein hofnau a'n gwendidau ni ac yn mynd o'n blaen ni. Ac y mae n mynd o'n blaen i Galilea. Pam Galilea? Nôl i ganol berw a chyffro a chymhlethdod a methiant a llwyddiant ei weinidogaeth; lle'r oedd yr anghenion yn dal yn real a'r cyfle'n fawr a gwyrthiau adnewyddol y deyrnas yn dal yn bosibl. Nôl i Galilea i fod yn rhan o ferw a chyffro bywyd grymus a gorfoleddus y deyrnas, a grym gobaith yr atgyfodiad o'u plaid.

Ymlaen i Gymru gyffrous diwedd canrif; ymlaen i ganrif newydd; ymlaen i fileniwm newydd; ymlaen gyda'n gilydd i gyflwyno newyddion da Iesu i Gymru, i ddileu dyledion y gwledydd tlotaf ac i leihau nifer y tlodion yn ein byd. Dyma'r 'Galilea' y gelwir ni iddo – gyda'i her a'i gyffro a'i fenter ac yn yr wybodaeth fod "Crist wedi mynd o'ch blaen chwi; cewch ei weld ef yno."

## Gŵyl y Gadeirlan



Ym mis Mehefin cynhaliwyd Gŵyl Gymraeg yn y Gadeirlan yn Llandaf pan ddaeth aelodau o holl eglwysi Cymraeg y cylch i hwyrol weddi. Cymerwyd rhan gan Ysgol Gymraeg Pen-cae ac Ysgol Uwchradd Llanhari. Falmai Griffiths, Warden y Ficer yn Eglwys Dewi Sant a Peter Griffiths, Prifathro Ysgol Llanhari a ddarllenodd y llithoedd. Pregethwyd yn rymus ar hwyl mewn addoliad gan gyn-Esgob Tyddewi, y Gwir Barchg Ifor Rees. Croesawyd pawb i'r eglwys gadeiriol gan y Parchg Aled Edwards, cyn-ficer Dewi Sant, sydd bellach yn un o ganoniaid y gadeirlan. Mae'n dda gweld y Gymraeg yn cael ei lle yn awr ac yn y man yn y gadeirlan hon.

## Eglwys Dewi Sant a'r Cynulliad Cenedlaethol

Pan ddaw rhywun i ysgrifennu hanes Eglwys Dewi Sant a'r Cynulliad Cenedlaethol, bydd rhai ffeithiau diddorol yn dod i'r golwg. Mae ein llongyfarchion yn mynd i Hugh Brodie, Heol Pant-mawr ar gael ei benodi'n Bennaeth Adran Amaethyddiaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mharc Cathays. Llongyfarchion hefyd i Ian Miller, Llandaf, ar gael ei benodi'n Bennaeth Adran Cyllid Llywodraeth Leol. Mae Andrea Miller (gwraig Ian) yn gweithio yn Adran Addysg Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhan o'i gwaith yw gofalu am yr iaith ym myd addysg. A byddwch yn cofio i'n cyn-ficer, y Parchg Aled Edwards gychwyn yn ddiweddar ar ei swydd gyda Chytûn a'r Cynulliad. Swyddi o gryn bwys bob un.

## Ficer Newydd Dewi Sant

Cyhoeddwyd mai'r Parchg Meurig Llwyd, sy'n gweinidogaethu ar hyn o bryd yng nghylch Pwllheli, fydd ficer newydd Eglwys Dewi Sant.

## Taith Haf Ieuenctid y Crwys

Bydd grŵp o ieuenctid y Crwys ac eglwysi eraill yr ardal yn ymweld â'r Taleithiau Unedig yn ystod gwyliau'r haf eleni. Bydd y grŵp yn treulio tair wythnos yn Bloomington, Indiana. Yr arweinydd fydd Alun Roberts. Trefnwyd y daith gan bwyllgor yn cynrychioli Cyfeillion Rhyngwladol Cymru. Mae trefniadau ar y gweill i ffurfio grŵp newydd ym mis Medi ac mae croeso i unrhyw un rhwng 14 a 16 mlwydd oed ymuno â'r grŵp.

## Bedydd yn y Crwys

Yn ddiweddar bedyddiwyd Sara Mererid, merch Gwyn a Glenda Davies, Rhiwbina, a chwaer i Rebeca Mair. Pob dymuniad da i'r teulu at y dyfodol.

# YSGOL GLANTAF

## Darllen ar y Cyd

Ym mis Medi 1998 daeth Ysgol Glantaf ynghyd ar yr un safle am y tro cyntaf ers 1986. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws i drefnu gweithgareddau ar y cyd rhwng y disgyblion iau ac aelodau'r chweched dosbarth. Penderfynwyd manteisio ar y sefyllfa newydd hon drwy ofyn i wirfoddolwyr o'r chweched dosbarth helpu gyda chynllun darllen i hybu safon darllen rhai o'r disgyblion ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Roedd yr ymateb yn anghygoel - 60 o wirfoddolwyr!

Yn y pen draw, penderfynodd 37 o ddisgyblion ymuno â'r cynllun, trwy ddarllen am 20 munud bob wythnos gydag aelod o'r chweched yn ystod amser cinio. Yn ystod y 6 mis ers i'r cynllun ddechrau mae sgiliau darllen ac oedran darllen y disgyblion wedi cynyddu, rhai cymaint â dwy flynedd a hanner. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y cynllun darllen. **Vanessa Priestley**

Dyma sylwadau un o wirfoddolwyr y chweched dosbarth: "Wrth i mi ddechrau yn y chweched dosbarth y llynedd, fe grybwyllodd rhai o'r athrawon fod cynllun darllen yn mynd i gael ei drefnu. Byddem ni fel aelodau o'r chweched yn mynd yn ein hawr ginio unwaith yr wythnos am 20 munud i helpu plant iau oedd yn cael problemau â'u darllen.

Apeliodd y cynllun ataf i yn syth ac at nifer o'm ffrindiau ac felly pan ddaeth y cyfle i wirfoddoli, roeddwn i'n awyddus iawn i helpu. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus bellach am rai misoedd ac rwyf i'n bersonol wedi gweld cryn welliant yn safon darllen y bachgen roeddwn i'n ei helpu.

Gobeithiaf y bydd llwyddiant y cynllun yn parhau y flwyddyn nesaf ac rwy'n gobeithio bod y disgyblion i gyd wedi elwa o'r cynllun gymaint ag yr wyf i."

**Kathryn Davies**

## Profiad Arbennig

*Yn ddiweddar cafodd Lizzie Jones, un o ddisgyblion chweched isaf Glantaf, y profiad gwych o dreulio wythnos yng ngwesty enwog Raymond Blanc, 'Le Manoir de Quatre Saisons' ger Rhydychen. Mae pob disgybl yn y chweched isaf yn gwneud wythnos o brofiad gwaith a bu Lizzie'n ddigon ffodus i sicrhau lle yn y gwesty arbennig hwn. Dyma Lizzie i adrodd peth o hanes yr wythnos:*

"Roedd meddwl am weithio mewn lle mor enwog â 'Le Manoir' yn frawychus braidd ac ar y diwrnod cyntaf mae'n rhaid cyfaddef fy mod yn teimlo'n nerfus iawn. Ond wrth i mi gerdded i mewn i dderbynfa'r gwesty roeddwn hefyd yn teimlo'n gyffrous iawn gan fy mod ar fin gwireddu breuddwyd.

Wrth i mi gerdded i mewn i'r gegin doeddwn i ddim yn siŵr sut groeso a gawn gan y gweithwyr yno. Cefais groeso arbennig gan bawb, yn enwedig y dynion!

Roedd gweithio y tu ôl i'r bar a gweini'r bwyd yn help i mi ddysgu tipyn am y diwydiant gweini, yn enwedig gan fy mod mewn sefydliad byd-enwog. Cafodd pob ymwelydd groeso arbennig ac roedd y bwyd wrth gwrs yn wych. Un profiad nodedig oedd ymweld â'r seleri gwin. Wrth weld yr enwau ar y labeli sylweddoliais fy mod i wedi bod mewn llawer o'r llefydd tra ar fy ngwyliau yn Ffrainc. Mae dylanwad Ffrainc wrth gwrs yn drwm iawn ar y gwesty ac mae 98% o'r gweithwyr yno yn Ffrancwyr.

Pa argraff gafodd 'Le Manoir' arnaf? Roedd yn brofiad anhygoel ac yn un na fyddaf byth yn ei anghofio."

## Athletau

Llongyfarchiadau i Simon Bull (Blwyddyn 11) ar gael ei ddewis yn gapten Tîm Athletau Ysgolion Cymru i gystadlu yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

## Tîm Pêl-rwyd Glantaf

Enillodd Tîm Pêl-rwyd Glantaf gystadleuaeth yr Urdd yn Aberystwyth. Dyma'r pedwerydd tro i'r ysgol fod yn fuddugol. Dyma lun o'r tîm:



## Yr Odesi

Derbyniodd Ysgol Glantaf grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer ei phrosiect 'Artistiaid yn yr Ysgol'. Bu'r plant yn gweithio gydag artistiaid proffesiynol yn ystod y tymor hwn yn dysgu 'sgiliau'r syrcas' ac maent wedi elwa'n fawr o'r profiad unigryw. Dan arweiniad yr artistiaid roedd y plant yn cyflwyno cynhyrchiad o *Yr Odesi* gan gyfuno sgiliau ymarferol gyda'r stori enwog honno. Y disgyblion oedd wedi cynllunio'r setiau a'r gwisgoedd dan hyfforddiant Branwen Roberts. Michael Harvey oedd yn gyfrifol am y storïo a Francis Maxey fu'n dysgu sgiliau fel cerdded ar 'stilts' ac agweddau corfforol.

Bu'n adeg cyffrous iawn ym mywyd yr ysgol wrth weld y disgyblion yn cydweithio mewn ffordd mor broffesiynol gyda'r artistiaid. Roedd yn bleser gweld disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn gwneud eu gorau glas i gyfrannu i'r cynhyrchiad. Yn goron ar yr holl waith cafwyd dau berfformiad gwych i'r cyhoedd. Bu'n gyfle unigryw i brofi 'byd duwiau, arwyr, anghenfilod, gwaed a hiraeth. Taith un dyn adref, taith Odisiws'.



Rhai o'r disgyblion yn paratoi'r mygydau ar gyfer *Yr Odesi*.

# YSGOL PLASMAWR

## Llwyfan Llambed

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion hynny a fu'n cynrychioli'r ysgol am y tro cyntaf erioed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Braf oedd gweld y disgyblion yn dangos eu doniau ar lwyfan y Brifwyl a chlywed enw'r ysgol yn cael ei chyhoeddi ymysg yr ysgolion gorau mewn gwahanol gystadlaethau. Mae ysgolion Cymru yn ymwybodol o'n bodolaeth ac rydym yn benderfynol o gyrraedd y brig y flwyddyn nesaf.

Llwyddiant Plasmawr yn Eisteddfod yr Urdd Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1999 :

| | |
|---|---|
| Unawd Piano | 2il Siôn Trefor |
| Unawd Telyn | 2il Mali Llywelyn |
| Argraffu | 3ydd Carly Jenkins |
| Cywaith Gwyddoniaeth | 3ydd Cadw'n Dwym |
| Côr S.A (12-15oed) | 3ydd |
| Cyflwyniad Llafar | 3ydd |
| Dawnsio Gwerin (12-15oed) | 2il |

## CHWARAEON

### Athletau

Llongyfarchiadau calonnog i dîm bechgyn Bl. 7 ac 8 a ddaeth yn drydydd yng ngystadleuaeth ranbarthol Caerdydd a'r Fro. Daeth tîm merched Bl. 7 ac 8 yn ail ac maent wedi ennill lle yn rownd derfynol cwpan B Caerdydd a'r Fro. Pob hwyl iddynt.

Llongyfarchiadau i Gemma Winstone (tîm ras gyfnewid) a gafodd ei dewis i gynrychioli Caerdydd a'r Fro ym mhencampwriaeth ysgolion Cymru.

### Criced

Bu tîm criced Bl. 9 yn llwyddiannus yn erbyn Llanilltud Fawr gyda pherfformiadau arbennig gan Alun Roberts a Tom Lloyd. Yn anffodus colli wnaeth Bl. 7 ac 8 yn erbyn yr un tîm.

Llongyfarchiadau i Tom Lloyd a Robert Marcus-Litchfield am gynrychioli timau Caerdydd a'r Fro.

### Tennis

Ar 21 Mehefin, aeth pedwar ar ddeg o ddisgyblion Blwyddyn 8 ar daith i Wimbledon. Gwyliwyd diwrnod gwych o dennis proffesiynol gan enwogion fel Jim Courier a chafwyd cip o Tim Henman yn ymarfer. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau yn fawr ac fe fydd yna gyfle i ddisgyblion eraill o'r ysgol ymweld â Wimbledon gogyfer â'r rownd gyn-derfynol !

## Mwynhau yn y Mandir !

### Gwibdaith Bl. 7 i'r deml Hindŵaidd

Ar fore braf ar ddiwedd mis Mai, aeth hanner Blwyddyn 7 i ymweld â'r deml Hindŵaidd yng Nglanyrafon. Bu hanner arall y flwyddyn y diwrnod cynt.

Wrth fynd i mewn drwy'r drws gwnaethom gamu i fyd gwahanol iawn. Y peth cyntaf y sylwom arno sy'n wahanol i'n haddoliaeth ni oedd bod rhaid tynnu esgidiau wrth fynd i mewn i'r deml.

Cawsom ein tywys o gwmpas gan ddyn a oedd yn egluro pwysigrwydd y *murti* (sef cerfluniau Hindŵ) a'r defodau. Gwelsom berfformiad o ddefod yr *Arti*, sydd yn fendith. Roedd hyn yn cael ei wneud trwy gerdded o gwmpas y deml i gyfeiriad y cloc, gan ddal lamp *arti*. Yna roedd blaen ei fysedd yn cyffwrdd â'r fflam ac yna'n ei phasio dros ei ben tra'n canu, gweddïo neu wrando ar y gerddoriaeth. Roedd cyfle i ni fyfyrio a chwarae offerynnau traddodiadol megis drymiau a symbalau.



Cawsom hefyd gyfle i edych ar y *Marah*, sydd fel llosgwyr mwslin o gant ac wyth o glain. Maent yn eu defnyddio i weddïo. Roedd y deml i gyd yn lliwiau llachar coch ac aur ac roedd cerfluniau o dduwiau pwysig fel Krishna a Ganesh yn amlwg yno. Ar ôl y sgwrs cafwyd cyfle i flasu'r 'Bombay Mix' - roedd rhai o'r farn y byddai losin wedi bod yn well !

Daeth Mrs Wilde, Mr Jones a Miss Edwards ar y daith gyda ni. Dywedodd Miss Edwards fod y wibdaith wedi bod yn agoriad llygad iddi. Roedd llawer ohonom yn cytuno.

**Siôn Lewis 7S**

## Gwyddoniaeth ar daith

Fore dydd Iau, 18 Mehefin aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 i adran wyddoniaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Roedd hi'n daith fythgofiadwy yn ôl y disgyblion; roedd cyfle i ddangos diddordeb, dysgu ac yn fwy pwysig na hynny, fwynhau ! Bwriad y daith oedd helpu gyda'r gwaith gwyddonol ar greigiau yr oeddem wedi bod yn eu hastudio yn y gwersi gwyddoniaeth.

Yn ystod y bore cafwyd cyfle i weld nifer o fideos, modelau, diagramau, ac enghreifftiau o greigiau. Yn fy marn i roedd hi'n brofiad gwych i gael dysgu am wahanol fathau o greigiau anhygoel mewn ffordd addysgiadol, ond eto yn anffurfiol. Fe gawsom gyfle i ddysgu mwy am ein gwlad a sut yr esblygodd a datblygodd y byd dros filiynau o flynyddoedd.

Diddorol hefyd ydoedd dysgu mwy am ochr fiolegol y ddaear, e.e. y deinasoriaid a'r nifer faith o rywiogaethau a oedd yn crwydro'r byd amser maith yn ôl, a'r rhai sydd yn dal yma heddiw. Roedd pawb wedi mwynhau mewn awyrgylch Cymreig, gweithgar a phleserus.

**Medi Warburton Bl. 8**



# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## YSGOL Y WERN

Rydym wedi cael tymor prysur a llwyddiannus yn yr ysgol ac mae'r plant wedi cael nifer o brofiadau bythgofiadwy.



Yn gyntaf, llongyfarchiadau calonnog i Marged Jones, disgybl ym Mlwyddyn 5 ar ddod yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn Llambed, yng nghystadleuaeth yr Unawd Llinynnol. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.


Llongyfarchiadau hefyd i Dîm Diogelwch y Ffordd yr ysgol ar gyrraedd y rownd gyn-derfynol yn ddiweddar. Mae gan y disgyblion wybodaeth eang nawr o reolau'r Ffordd Fawr a fydd yn ddefnyddiol iawn iddynt ar hyd eu hoes. Da iawn chi.



Bu plant Blwyddyn 6 yn cymryd rhan ym mhrosiect cyfansoddi Canwr y Byd, gyda cherddorion Cerddorfa Genedlaethol y BBC yn gweithio gyda'r plant. Daeth Martina Dike (un o gystadleuwyr Canwr y Byd), y mezzo soprano o Sweden, atom i glywed perfformiad y plant o ganeuon gwerin o Sweden ac o Gymru. Cafwyd y fraint hefyd o wrando arni hi yn canu i'r plant.

Treuliwyd prynhawn cyffrous iawn yn ddiweddar yn yr ysgol, pan gynhaliwyd y Mabolgampau. Y buddugwyr eleni oedd Taf. Pob hwyl i bawb a fydd yn cynrychioli'r ysgol ym Mabolgampau'r Sir yn Lecwydd.

Cynhelir cyngerdd yng nghwmni 'Cwlwm' gan yr Adran Iau ar 19, 20 a 21 Gorffennaf. Fe fyddwn yn casglu arian tuag at Ofal Canser Marie Curie.



Mae'r plant ar hyn o bryd yn edrych ymlaen at wibdaith y flwyddyn. Dyma restr o wibdeithiau'r ysgol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Dosb. Derbyn | - | Castell Caerdydd |
| Bl. 1 | - | Sain Ffagan |
| Bl. 2 | - | Llancaiach Fawr |
| Bl. 3 | - | Parc Treftadaeth Rhondda |
| Bl. 4 | - | Ogofâu Dan yr Ogof |
| Bl. 5 | - | Yr Amgueddfa Americanaidd yng Nghaerfaddon |
| Bl. 6 | - | Hampton Court |

## YSGOL PEN-CAE

### Cystadleuaeth Diogelwch y Ffordd

Daeth tîm Blwyddyn 6 i rownd derfynol y sir yn Neuadd y Sir. Bydd y tîm yn cystadlu ym Mhen-y-bont yn erbyn ysgolion de-ddwyrain Cymru yng Ngorffennaf.

### Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Trefnwyd cystadleuaeth 'Fy Llandaf i' gan Gymdeithas Hanes Llandaf. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i Medyr Llywelyn. Trosglwyddyd gwaith Blwyddyn 6 yn gyfan i gystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Gwobrwywyd y dosbarth gan Techniquest mewn seremoni yn y ganolfan.



### Chwaraeon – yr Adran Iau

Bu'r disgyblion yn rhan o gystadlaethau sirol Capital Rugby, Kwik Criced a CRICC. Roedd Ysgol Pen-cae yn un o saith tîm o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg mewn gŵyl rygbi 7 bob ochr ar 15 Mai. Trefnwyd y gweithgaredd gan Glwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd fel cyfraniad i ddathliadau hanner canmlwyddiant addysg Gymraeg. Cyflwynwyd y cwpan i dîm Ben-cae mewn seremoni yn yr ysgol.

### Parti Sali Mali

Ar brynhawn braf ym Mehefin fe ddathlwyd pen-blwydd y cymeriad hoffus Sali Mali yn 30 oed mewn parti ym Mharc Hayley.



Plant y dosbarth derbyn yn eu gwisg ffansi fel un o gymeriadau cyfres ddarllen Sali Mali.

### Dawns y Mileniwm

Dathlwyd agoriad y Stadiwm Cenedlaethol newydd gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon mewn cinio a dawns yn Neuadd y Ddinas. Ein gwesteion arbennig oedd Jonathan Davies, Ian Gwyn Hughes a Nigel Walker.

# YSGOL COED-Y-GOF

## Y Plant Ysgafn-droed o Goed-y-gof

Ar ôl eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir, aeth dawnswyr disgo heini Coed-y-gof ymlaen i'r Genedlaethol. Roeddent yn cystadlu yn erbyn un grŵp ar bymtheg o'r plant mwyaf ystwyth yng Nghymru! Diolch i Miss Enfys Emlyn am fod mor barod i'w hyfforddi ac i weddill staff yr ysgol am helpu gyda'r gwisgoedd. (Nid gwisg, gwisg heb elastig!)

## Cyfansoddi Cerddorol

Llwyddodd plant Blwyddyn 6 i gymryd rhan yng nghystadleuaeth cyfansoddi cân ar gyfer y Mileniwm (cystadleuaeth a noddwyd gan Marks & Spencer) gan dderbyn cymeradwyaeth uchel. Da iawn chi gyfansoddwyr - mae eich angen ar Gymru!

## Kosovo

Ar ôl clywed ceisiadau gan blant yr ysgol i ymwneud â helpu'r ffoaduriaid yn Kosovo, penderfynwyd gwneud casglaid o fwydydd sych, dillad a blancedi ar gyfer yr apêl. Roedd yr ymateb yn anhygoel. Diolch i chi, blant a rheini hael, a phawb a fu yn trefnu a dosbarthu'r nwyddau. Roedd hi'n fraint cael bod yn rhan o'r fenter.



Plant Coed-y-gof yn anfon nwyddau i Kosovo.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Gareth Jones a Miss Annwen Jones ar eu priodas yn ddiweddar yn Ffarmers, Llanpumpsaint.

## Patagonia

Mae'r cysylltiad â'r Wladfa yn parhau a balch oeddem o gael llawer o newyddion am ein ffrindiau ar y Paith pan ddychwelodd Mrs Pat Nash a'r teulu o'u hymweliad â'r Ariannin. Roedd y plant wrth eu bodd yn clywed y straeon ac yn gweld yr holl bethau Patagoniaidd a lluniau nodweddiadol a diddorol. Cafodd Mrs Nash a'r teulu gyfle i ymweld ag Ysgol Bryngwyn yn Nyffryn Camwy, lle mae Señora Lawra Henri yn brifathrawes.



Dyma Señora Lawra Henri a'i merch Rebeca o Batagonia yn ymweld ag Ysgol Coed-y-Gof yn 1991.

## Bruno Thibault

Rydym yn ffodus iawn i gael artist o Ffrainc, Bruno Thibault, i weithio yn ein plith. Mae'n medru ysbrydoli'r plant a'u hyfforddi i wneud gwaith creadigol o safon uchel. Edrychwn ymlaen at weld eu dehongliad o Chwedl Branwen. Mae Bruno hefyd yn medru dod â dimensiwn arall, 'Ffrengig', i mewn i'r gwaith gan gymell plant i ymddiddori mewn diwylliannau eraill.

## Bocs Amser

Oherwydd bod estyniad Coed-y-gof yn prysur godi, penderfynwyd y byddai'n beth da i ni gladdu 'bocs amser' yn y seiliau fel drych o gyfnod 1999. Roedd hi'n anodd dewis artefactau addas ond cafodd llawer o'r plant syniadau gwreiddiol iawn! D.S. Mynnodd yr athrawon gladdu'r TASAU!



Mr A. P. Williams, Prifathro Coed-y-gof, yn claddu'r bocs amser yn seiliau yr estyniad newydd.

## Addysg Ychwanegol

Derbyniodd Coed-y-gof dystysgrif o 'Ganmoliaeth Uchel' am ei rhan yng ngweithgareddau all-gyrsiol yr ysgol ac am ei hymroddiad i gyfoethogi profiadau addysgiadol pobl ifainc.

## Dathlu 50 Mlynedd o Addysg Gymraeg yn y Ddinas

Bydd plant Coed-y-gof yn dathlu mewn steil drwy ollwng rhyw 400 o falwnau heliwm i chwythu gyda'r gwynt lle y mynnant. Y gobaith yw y bydd y falŵn a deithia bellaf yn cael ei dychwel i'r ysgol ac fe gynigir gwobr ariannol i'r enillydd.

## Letar tw Protein

Dear Headityr,

I want a complaint. I am this custard with sewer paper. By the weight you member me. Me is John Jones who has lyrnd his Hinglish from washing films in the Thiytyr Royl and the Western Male. There is too much Hebrew in sewer papyr and not nyff Hinglish. Who in Barry no Hebrew? Everbidy no Hinglish so why in your last papyr there was only one Hinglish word: "Raffl" and five Hebrew words, "Bethel", "Tabernacl", "Salem", "Peniel", "Ebeneser". You a this Gracie! Bisexual is everthick in Hinglish and welch not Hebrew and Welch. Mrs Jones want Bisexual. She say: "No more Hebrew in the *Sitisen*, John. Tell them John." So I tell you, and Mrs. Jones say you can't spel Hinglish: Raffl got a "E" on the last of it, so hair!

We are not sending a fever to the Appil this time as a protein against your Auntie Hinglish papyr with two much Hebrew there.

God by for the time been,

John Jones, Railway Terrace, BARRY

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Cymru 29, De Affrica 19



Nid anghofiaf fis Mehefin 1999. Ar ddiwrnod cynta'r mis euthum o Buenos Aires i Drelew er mwyn treulio ychydig o amser yn y Wladfa cyn gweld y ddwy ornest yn Stadiwm Ferro Carril Oeste ym mhrifddinas y wlad. Enillwyd y ddwy, y gyntaf wedi bod ar ei hôl hi o dri phwynt ar hugain i ddim yn yr hanner cyntaf; yr oedd yr ail yn hollol wahanol ac yr oedd Cymru ar y blaen o dri phwynt ar hugain i naw, ond heb chwarae â chymaint o sglein. Sgoriwyd pedwar cais ac ildio tri yn Buenos Aires, ac yr oedd pawb yn fodlon ei fyd hyd y gwelwn i, ond myfi, hynny yw. Teimlais yn siomedig dros ben pan ddaeth y daith i ben heb inni gael cais (neu ddau) arall yn yr ornest olaf honno. Ond nid oedd yr un o wledydd yr ynysoedd hyn wedi ennill eu dwy ornest yn yr Ariannin, ac felly tipyn o gamp wedi'r cyfan oedd hynny. Paratoad da ar gyfer yr ornest nesaf bythefnos ar ôl dychwelyd adref yn erbyn deiliaid Cwpan Wiliam Webb Ellis a honno yn Stadiwm y Mileniwm.

Er na ddisgwyliem ganlyniad tebyg i hwnnw a gafwyd yn Pretoria flwyddyn o fewn diwrnod i'r ornest hon, ni chlywais neb yn darogan buddugoliaeth i'r wlad yn ei stadiwm mawreddog newydd - nid darogan ag unrhyw argyhoeddiad ynddo, beth bynnag. Ond dyna a gaed, buddugoliaeth ddigamsyniol o 29 pwynt i 19, y ddwy wlad yn rhannu'r pedwar cais ar ddiwedd gornest wych, gyffrous - llesmeiriol ar brydiau, yn enwedig wrth gofio mai dyma'r tro cyntaf inni guro De Affrica mewn tair gornest ar ddeg. Bu un ornest gyfartal yn 1970, ac yr oedd hi'n agos iawn yn 1912 (0-3), 1951 (3-6) a 1960 (0-3); mi welais i honno yn 1951 pan sgoriodd Bleddyn Williams gais yn hwyr yn yr ornest ar ôl symudiad siswrn, ond nid es i weld y ddwy yn 1960 a 1970 oherwydd problem y gwahanfur lliw a fodolai yn Ne Affrica yn y cyfnod hwnnw. Gyda llaw, curodd clwb Caerdydd dîm y Sbringboc yn 1907 o 17-0, a bu Casnewydd (9-3) ac Abertawe (3-0) yn fuddugoliaethus yn 1912, a Chasnewydd drachefn yn 1969 (11-6); ond ni thry'r felin ar y dŵr sy wedi mynd.

Clywyd llawer o sôn ar radio, teledu ac yn y wasg am achlysur hanesyddol Mehefin 1999, sef chwarae'r ornest gyntaf yn y stadiwm newydd yn ein Prifddinas. Bu llawer o feirniadu ar y stadiwm er y penderfyniad i ddefnyddio arian Loteri a chymorthdal Comisiwn y Milflwyddiant - dros gan miliwn o bunnau i gyd - i godi stadiwm yn bennaf ar gyfer Cwpan y Byd. Beth am Dŷ Opera a Theatr Genedlaethol? Yr oedd stadiwm cenedlaethol gennym ni eisoes, ac un a gwblhawyd mor ddiweddar â 1981 - ond un na allai ddal mwy na rhyw 52,000 o wylwyr oherwydd rheolau diogelwch torfeydd. Cafwyd cefnogaeth Cyngor y Brifddinas i'r fenter a dechreuwyd ar y gwaith o godi'r stadiwm dros ddwy flynedd yn ôl; bu pryderon lawer a fyddai'n barod ar gyfer Cwpan y Byd, ond erbyn hyn diflannodd y pryder ac edrychwn ymlaen at fynd iddo pan fyddwn yn chwarae Ariannin yng ngornest gyntaf y gystadleuaeth, 1 Hydref.

Saith mil ar hugain a wyliodd y fuddugoliaeth fawr - dyna'r cyfan a gâi ei gwylio am nad oedd y seddau i gyd yn eu lle - ond er gwaetha'r gwacter yn y de ac yn hanner eisteddleoedd y dwyrain a'r gorllewin, yr oedd hi'n amlwg ein bod yn berchen ar stadiwm unigryw. *Ond*, byddai'n rhaid cael buddugoliaeth i'w agor - *rhaid* curo De Affrica; ar ôl i Neil Jenkins gicio ei bedair "gôl Gymreig" a Mark Taylor "sgorio ohono ei genedlaethol gais", chwedl Gwenallt, roeddem yn gwybod bod y fuddugoliaeth nid yn unig yn bosibl ond yn debygol hefyd. Cawsom hanner amser hyfryd, pawb yn wên ac yn ffraeth - byddai hi'n ddiwrnod hanesyddol yng ngwir ystyr y gair.

Yn ystod yr egwyl penderfynodd y gwrthwynebwyr newid cwrs yr hanes hwnnw, ac am dros ugain munud ni fuom yn eu hanner nhw, ac yn y cyfnod sgorion nhw gais a gôl gosb ac yr oedd hi'n 19-14. Bu amddiffyn y Cymry'n anhygoel ond fe'i bylchwyd pan gafodd De Affrica eu cais cyntaf ar ôl blerwch yn agos at y llinell gais. Tybed, tybed a ellid sicrhau'r fuddugoliaeth gyntaf honno wedi'r cwbl? Ond yn fuan "gellid" oedd yr ateb; sgrym i Gymru yn 22 De Affrica, Scott Quinnell yn mynd â'r bêl drwy fwlch cyn cadw meddiant ar y llawr wedi iddo gael ei daclo, Robert Howley â phas cyflym o'r ryc i Chris Wyatt oedd wedi ei leoli ei hun rhwng yr hanerwyr, ond pan sylweddolodd Wyatt fod y maswr y tu allan iddo ni ddaliodd y pas a aeth wedyn i Neil Jenkins a chafodd Gareth Thomas rwydd hynt i groesi'r llinell gais. Trosodd Neil Jenkins ag un o'i giciau rhyfeddol ac yr oedd deuddeg pwynt rhwng y ddau dîm a chwarter awr yn weddill. Dim amheuaeth wedyn. Dylid sôn am Chris Wyatt. Gweledigaeth fawr ar ei ran ef oedd peidio â chydio yn y bêl y pryd hynny gan y byddai un pas arall wedi arafu'r bêl a rhoi llai o amser i'r asgellwr gyrraedd y geisfa. Gwych. Cic gosb arall yn fuan - 29-14 - ac er i Montgomerie sgorio ail gais De Affrica bum munud o'r diwedd, yr oedd y mynydd yn rhy uchel iddynt ac fe drowyd Stadiwm y Mileniwm yn Faes Mawr y genedl a môr o gân. Canada yna Ffrainc cyn diwedd Awst, a mwy o gyffro a chanu.

# Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

## Yr Anterth a'r Ecstasi

Dw i ddim yn deall pam mae cynhyrchwyr ffilmiau Cymreig mor awyddus i gysylltu trefi Cymru â chyffuriau. Ar ôl *Twin Town* Abertawe, mae tro Caerdydd wedi dod bellach gyda *Human Traffic*. Mae'r ffilm yn dilyn hynt a helynt grŵp o bobl ifainc yng nghlybiau nos Caerdydd dros y penwythnos. Mae'n cyferbynnu eu bywydau gwag bob dydd â chyffro'r clybiau a gweithgareddau'r nos dan ddylanwad alcohol ac ecstasi.

Mae'r ffilm yn llwyddo i bortreadu teimladau ac agwedd y bobl ifainc yn realistig iawn, ac i rywun fel fi, a anwyd yn y dyddiau cyn ecstasi, roedd hi'n dipyn o agoriad llygad. Er hynny, fyddwn i ddim yn argymell i neb dan 40 oed fynd i'w weld. Daeth un neges yn glir trwy'r ffilm: does dim ystyr i fywyd, mae pobl ifainc yn cael eu hecsbloetio, yr unig beth i'w wneud yw dianc am gyfnod i fyd clybiau a chyffuriau i leddfu rywfaint ar y boen. Neges negyddol iawn, neges beryglus hyd yn oed, ac yn bennaf, neges drist ar y naw.

**Geirfa**

anterth - agony
cynhyrchwyr - producers
awyddus - eager
cysylltu - to connect
cyffuriau - drugs
hynt a helynt - progress
cyferbynnu - to contrast
cyffro - excitement
gweithgareddau - activities
dan ddylanwad - under the influence
portreadu - to portray
agwedd - attitude
argymell - to recommend
lleddfu ar - to relieve

Nant Gwrtheyrn

**Dewch i groesawu'r mileniwm newydd yn Nant Gwrtheyrn.**

Llety gwerth chweil i chi, eich teulu a'ch ffrindiau yn un o bentrefi mwyaf hudolus Cymru.

Lleoliad unigryw i ddathlu'r flwyddyn newydd.

£75 y pen am dair noson (£50 i blant).

**Eisiau gwybod mwy?**
**Cysylltwch â ni yn syth i sicrhau eich lle!**

☎ 01758 750334 01758 750335 @ nantgwr@aol.com

mwy na mileniwm

Os hoffech mwy o wybodaeth am wasanaethau'r Nant cysylltwch â: Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd. 01758 750334

TRYDANWR

*gyda dros 20 mlynedd o brofiad*

Prisoedd rhesymol am ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd.

*Ffoniwch*

**CAERWYN DAVIES**
ar **01222 868208**
neu **0468 973229**

*Ar Werth*

*Telyn Geltaidd 'Kerry'*
*gan gwmni Morley*

*Cyflwr da ond heb y coesau atodol*

*£900 neu'r cynnig agosaf*

*Ffôn: 01222 - 665225*

## Teisen Lap Nantgarw

Cyfeiriais yn rhifyn Mawrth at ddau fath o deisen a oedd yn neilltuol o boblogaidd ymhlith pobl Nantgarw, fy mhentref genedigol. Y tro diwethaf rhoddais y rysait ar gyfer yr un a oedd, er nad yn arbennig i'n rhan ni o Gwm Taf, yn enghraifft o'r dull Cymreig o wneud y deisen honno, sef y deisen afalau. Y tro hwn, rhoddaf rysait y deisen arall, teisen a oedd ym marn gwŷr y pentref yn un a oedd yn arbennig i'n rhan ni o Gwm Taf.

'Teisen lap' oedd y deisen honno, ac er bod yr enw'n bur adnabyddus ar draws y De, mae'n amlwg nad yw'r dull o'i gwneud yn hollol yr un peth ymhobman. O leiaf, cefais rysait am deisen lap gan gyfaill o Gwm Tawe, sy'n bur wahanol i deisen lap Nantgarw.

Dyma deisen lap Nantgarw a'r cylch fel y'i cefais gan fy mam:

*Deunydd:*

1 pwys o flawd codi
9 owns o fargarîn neu fenyn
1/4 pwys o gyrans a 1/4 pwys o sultanas
*neu* 1/2 pwys o ffrwyth cymysg
tua 2 owns o 'bilion melys' (*mixed peel*)
3 llond llwy fwrdd da o siwgr
3 wy
1/2 llwyaid de o halen
1 llwyaid de o *lemon essence*

Byddai fy mam-gu yn ychwanegu un llwyaid de o sbeis cymysg.

*Dull:*

1. Gweithio'r braster trwy'r blawd.
2. Ychwanegu'r ffrwyth, y 'pilion melys', y siwgr – a'r sbeis cymysg, os defnyddir hwnnw.
3. Curo'r wyau, ychwanegu'r halen a'r *lemon essence*.
4. Gwlychu'r toes â'r cymysgwch wyau a'i droi â fforc nes ei fod yn ddigon llap i gwympo oddi ar y fforc.
5. Iro tun hirgul â saim a'i leinio â phapur saim (*greaseproof paper*).
6. Arllwys y toes i'r tun a'i dacluso.
7. Ei ddodi mewn ffwrn dwym (regulo 5) am hanner awr. Gadael y deisen yn y tun i oeri cyn ei chodi allan.

A dyma'r rysait ar gyfer teisen lap a gefais gan gymydog a oedd yn dod o Gwm Tawe:

*Deunydd:*

| | |
|---|---|
| 6 owns o flawd codi | 6 owns o fargarîn meddal |
| 6 owns o siwgr mân (*caster*) | 3 wy |
| 1 pinsiaid o halen | ychydig sultanas neu gyrans |

1/2 llwyaid de o *golden raising powder*
sudd lemwn neu oren

*Dull:*

1. Cymysgu'r deunyddiau gan ddefnyddio'r dull hufennu (*creaming method*).
2. Ychwanegu'r *golden raising powder* yn olaf.
3. Dodi'r deunydd ar y tun hirgul a'i ddodi yn y ffwrn: marc nwy 6 am 3-4 munud, marc 5 am 10 munud, marc 3 am weddill yr hanner awr, ond peidio ag agor drws y ffwrn am o leiaf 20 munud wedyn.

Y tro nesaf, fe grwydrwn ymhell o bentref Nantgarw – i ben arall y byd – am un rysait arall . . .

***Ceinwen H. Thomas***

EISTEDDFOD GADEIRIOL
AMGUEDDFA WERIN CYMRU

## SAIN FFAGAN

**Dydd Sadwrn 20 Tachwedd 1999**

**TESTUNAU LLENYDDOL**
Beirniad: Islwyn Jones

1. Cerdd y Gadair: Cyfres o Benillion Telyn: 'Cymry Enwog yr Ugeinfed Ganrif'
   *Gwobr*: Cadair fechan o waith un o grefftwyr yr Amgueddfa Werin
2. Soned: Y Dr Gwynfor Evans
3. Cywydd neu Gerdd yn y mesur rhydd: Cais am Swydd yn Amgueddfa Werin Cymru
4. Englyn: Yr Athro Hywel Teifi Edwards (Llywydd yr Eisteddfod)
5. Deg Dihareb o waith y cystadleuydd
6. Pennill Beddargraff doniol: Agored
7. Limrig: Yn ystod y mileniwm nesa(f)
   Fe welwn y pethau rhyfedda(f) ...
8. Brawddeg neu Frawddegau a phob gair yn dechrau ag un neu ragor o'r llythrennau A C CH E G neu I
9. Brawddeg o'r llythrennau yn yr enw SAIN FFAGAN
10. Casgliad o Gerddi yn ymwneud ag unrhyw ardal neu ardaloedd yng Nghymru. (E.e., cerddi troeon trwstan, cerddi gofyn a diolch, digwyddiadau, dathliadau, cyfarchion priodasol a cherddi coffa. Pan fo hynny'n bosibl, dylid egluro cefndir y cerddi a nodi enw'r awdur.)
    *Gwobr*: £75.00 (rhoddedig gan Amgueddfa Werin Cymru, o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds (1907-86), Brynhoffnant, Ceredigion).

Y Cyfansoddiadau i'w hanfon at yr Ysgrifennydd cyn **1 Tachwedd**:
Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn: 01222 573427 neu 573500

Mewn amlen o dan sêl dylid cynnwys: teitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn. Ar wyneb yr amlen, noder: teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw.

# YSGOL GYMRAEG COLEG NEWYDD

## I DDECHRAU MEDI 1999

7 - 11 oed (dosbarthiadau bach)

**£1,050 y tymor**

**Ysgol Gymraeg Annibynnol gyntaf Caerdydd**

**Ar agor 8am - 5pm**
**Addysg sy'n gweddu i'ch plentyn a'ch amserlen**

*Am fanylion pellach, cysylltwch â:*

**Mrs. Gwyn Evans**
Ysgol Gymraeg Coleg Newydd
Bute Terrace
Caerdydd. CF1 2TE
Ffôn: 01222 - 463355
Ffacs: 01222 - 489616
admin@new-coll-cf.ac.uk

**SWYDDFA'R POST**

**THE POST OFFICE**

# CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

# 0345 468 469

SWYDDFA'R POST
Post Brenhinol
Royal Mail
PARCEL-FORCE WORLDWIDE

# REES WOOD a TERRY

## A ydych chi wedi cael **damwain?**

## Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

## Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222